

# Gwelliannau i Amddiffynfeydd Arfordirol - Bae Penrhyn

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn ystyried opsiynau i amddiffyn yr arfordir ym Mae Penrhyn o lifogydd arfordirol ac erydiad. Fe hoffem ni dderbyn eich barn.

## BETH YW'R BROBLEM?

Gwarchod y Morglawdd

Mae'r morglawdd concriid a adeiladwyd yn y 1950au yn rhoi amddiffynfa sylweddol i Fae Penrhyn. Heb y strwythur hwn bydd yr arfordir yn dechrau erydu a byddai ardaloedd isel tu ôl i'r amddiffynfeydd mewn risg gynyddol o lifogydd llanw. Mae agweddau o'r traeth yn rhoi amddiffynfa i'r morglawdd ac yn ei atal rhag cael ei ddfrodi gan y tonnau. Pe bai agweddau o'r traeth yn cael eu colli oherwydd erydiad yna byddai'r morglawdd mewn perygl o fethu oherwydd y tonnau.

Atal y traeth rhag erydu


Mae'r traeth ym Mae Penrhyn yn dueddol o symud - mae hynny'n golygu o dan symudiad tonnau fod agweddau o'r traeth yn cael ei gludo ar hyd y traeth gan ddatgelu'r morglawdd. Mae CBSC yn symud elfennau o'r traeth yn ôl i ganol y bae ar gost sylweddol. Ym 1990 gosodwyd morgloddiau i leihau erydiad ond mae'n dal i ddigwydd. Oherwydd newid hinsawdd mae'r proses yn debygol o gyflymu. Rydym yn edrych i ddod o hyd i ateb sy'n lleihau erydiad o'r traeth.

## BETH FYDD YN DIGWYDD OS NA FYDDWN YN GWNEUD RHYWBETH?

Heb weithgareddau cynnal a chadw parhaus o'r traeth bydd y morglawdd mewn perygl o fethu. Bydd yn gosod eiddo ac asedau mewn risg o lifogydd ac erydiad.

Mae **316** eiddo pellach mewn perygl o lifogydd

Mae **39** eiddo pellach mewn perygl o erydiad arfordirol





# Gwelliannau i Amddiffynfeydd Arfordirol - Bae Penrhyn

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn ystyried opsiynau i amddiffyn yr arfordir ym Mae Penrhyn o lifogydd arfordirol ac erydiad. Fe hoffem ni dderbyn eich barn.

## BETH YW EIN HAMCANION ALLWEDDOL?

Trwy'r cynllun rydym eisiau:

- Rheoli effeithiau perygl llifogydd a'r erydiad arfordirol er mwyn amddiffyn Bae Penrhyn
- Lleihau amllder a chost gweithgareddau rheoli a chynnal a chadw traeth
- Cynnal neu ehangu'r traeth presennol a'i wella ar gyfer y gymuned leol
- Canfod opsiwn mwy fforddiadwy ac y gellir ei gyflawni
- Lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a chyflawni buddion ehangach i Fae Penrhyn

## PAM YDYM YN GOFYN I CHI?


Fe hoffem ni dderbyn eich barn ar yr hyn sydd orau i Fae Penrhyn:

- BETH YN EICH BARN CHI SYDD YN GWNEUD TRAETH A BLAEN Y MÔR YM MAE PENRHYN YN ARBENNIG?
- BETH YDYCH YN EI HOFFI NEU DDIM YN EI HOFFI AM GYNIGION CBSC AR GYFER BAE PENRHYN?
- PA WELLIANNAU RHESYMOL YR HOFFECH EU GWELD YM MAE PENRHYN?

Mae llawer o wahanol ffyrdd o amddiffyn yr arfordir . Mae gan bob un ei fantais a'i effaith. Bydd eich sylwadau yn ein helpu i ddewis yr opsiynau gorau ar gyfer eich cymuned ac i gwblhau achos busnes y prosiect. Mi fyddan nhw hefyd yn ein helpu i edrych ar y buddion ehangach y byddwn o bosib yn eu cyflawni trwy'r cynllun hwn. Mae hyn yn dibynnu ar yr opsiynau, ond mae posibiliadau yn cynnwys gwell mynediad i'r traeth, mwy o lefydd i eistedd, gwell golau neu well barth cyhoeddus.

## LLINELL AMSER – BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Rhaid i ni ddilyn proses llywodraeth i ddewis yr opsiynau cywir ac i sicrhau'r cyllid rydym ei angen. Unwaith y bydd yr achos busnes wedi'i gymeradwyo byddwn angen sicrhau cyllid, caniatâd cynllunio a chaniatâd amgylcheddol a morol. Yna gallwn ddechrau ar y gwaith o ddatblygu ateb arfaethedig, gellir gwneud hynny mor fuan â 2020. Byddwn yn trafod ymhellach trwy gydol y broses.






# Gwelliannau i Amddiffynfeydd Arfordirol - Bae Penrhyn


Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn ystyried opsiynau i amddiffyn yr arfordir ym Mae Penrhyn o lifogydd arfordirol ac erydiad. Fe hoffem ni dderbyn eich barn.

## OPSIWN 1 – ADDASU AC AIL-LENWI'R TRAETH

Defnydd o gerrig crynion ar hyd ardal canol-deheuol y traeth i leihau'r gwaith o gludo deunyddiau traeth – gan greu lleiafswm lled traeth o 20m ger yr amddiffynfeydd morgloddiau presennol. Mae elfennau allweddol o'r opsiwn i'w gweld yn y diagramau isod.



UCHOD: CYNLLUN YN DANGOS PRIF ELFENNAU OPSIWN 1



UCHOD: ADRAN AMLINELLLOL YN EDRYCH AM Y DWYRAIN, YN DANGOS Y PROFFIL TRAETH PRESENNOL AC ARFAETHEDIG



GOLYGFYA YN DANGOS ADRAN Y TRAETH Y BYDDWN YN EI ADDASU A'I ADLENWI GYDA DEUNYDDIAU NEWYDD O DAN YR OPSIWN HWN. MAE'R MORGLAWDD PRESENNOL I'W WELD AR Y CHWITH. BYDDAI HWN YN CAEL EI GODI.



MAE CBSC YN SYMUD ELFENNAU O'R TRAETH YN ÔL I GANOL Y BAE AR GOST SYLWEDDOL. BYDDAI'R OPSIWN HWN YN ARAFU CYFLYMDER Y MAE'R TRAETH YN ERYDU YN SYLWEDDOL AC FELLYN LLEIHU PA MOR AML BYDDAI ANGEN GWNEUD Y DASG.



# Gwelliannau i Amddiffynfeydd Arfordirol - Bae Penrhyn

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn ystyried opsiynau i amddiffyn yr arfordir ym Mae Penrhyn o lifogydd arfordirol ac erydiad. Fe hoffem ni dderbyn eich barn.

## OPSIWN 2 – MORGLAWDD CANOLOG NEWYDD

Strwythur newydd, yn debyg i'r morgloddiau presennol, a allai wasgaru egni tonnau a lleihau symudiad y deunyddiau traeth o gael eu cludo o'r gorllewin i'r dwyrain. Lleoli deunyddiau traeth ychwanegol ei angen i greu proffil traeth sefydlog. Mae elfennau allweddol o'r opsiwn i'w gweld yn y diagramau isod.



UCHOD: CYNLLUN YN DANGOS PRIF ELFENNAU OPSIWN 2



UCHOD: BRASLUN MYNEGOL YN DANGOS Y LLEOLIAD ARFAETHEDIG AC EHangDER Y MORGLAWDD NEWYDD (SIÂP MYNEGOL AR Y CAM HWN)